OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif. 1473 (Cy. 161)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Old Amroth Road, Sir Benfro i Fan i'r Dwyrain o Lan-teg, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *13 Gorffennaf 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1)a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Gorffennaf 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Old Amroth Road, Sir Benfro i Fan i'r Dwyrain o Lan-teg, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 13 Gorffennaf 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2, ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Llan-teg, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 MYA a 50 MYA) 2004**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Gorffennaf 2015
*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2004/162 (Cy. 17).

## ATODLEN 1

### HYD A LLED Y TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

1. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 2.7 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

2. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 3.5 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 4.3 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.7 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd Dosbarth III (yr C3185), Old Amroth Road, hyd at bwynt 3.5 o gilometrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.